

COFNODION Y CYFARFOD

Dyddiad: 8 Ionawr 2002

Amser: 9am

Lleoliad: Ystafell A3.13

Yn bresennol: John Marek, y Dirprwy Lywydd (Cadeirydd)
Andrew Davies, y Trefnydd
Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru
Jonathan Morgan, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr
Peter Black, y Democratiaid Rhyddfrydol

Paul Silk, Clerc y Cynulliad
David Lambert, Ymgynghorydd Cyfreithiol
Swyddfa'r Llywydd
Marie Knox, Pennaeth Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau
(eitem 6 ar yr agenda)
Andrew George, Clerc y Pwyllgor Busnes
Marion Stapleton, Uned Fusnes y Cynulliad
Adrian Green, Ysgrifenyddiaeth y Siambr
Alun Gruffudd, YP/Y Dirprwy Lywydd
Alun Jenkins, Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol
(eitem 4 ar yr agenda)

1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

1.1 Dywedodd Peter Black fod Kirsty Williams wedi ymddiheuro am ei habsenoldeb. Fodd bynnag, roedd yn bwriadu dychwelyd fel aelod o'r Pwyllgor ar ôl hanner tymor mis Chwefror. Yn y cyfamser byddai'n parhau i'w chynrychioli yn unol â Rheol Sefydlog 13.3.

2. Cofnodion y cyfarfodydd blaenorol

(i) 4 Rhagfyr 2001 - BC355-01 (Terfynol)

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar eu ffurf derfynol. Am nad oedd unrhyw sylwadau, byddent yn cael eu cyfieithu'n barod i'w cyhoeddi.

Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr

(ii) 11 Rhagfyr 2001 - BC361-01 (Drafft)

2.2 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar ffurf ddrafft. Awgrymwyd un mân-ddiwygiad a gâi ei ymgorffori yn y fersiwn derfynol a fyddai'n cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod nesaf.

Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr

3. Materion sy'n codi (11 Rhagfyr 2001 – BC361-01)

3.1 Paragraff 3.2 Dywedodd y Trefnydd nad oedd trafodaeth wedi'i chynnal gyda chyd-weithwyr ynghylch y trefniadau ar gyfer toriad y Pasg 2003 a'r cyfnod yn arwain i fyny at etholiadau'r Cynulliad. Fodd bynnag, dywedodd fod y Prif Weinidog yn teimlo y dylai grwpiau'r pleidiau ystyried y mater cyn dod i benderfyniad. Cytunodd y Rheolwyr Busnes i drafod y mater ymhellach gydag arweinwyr y pleidiau ac ystyried o fewn grwpiau'r pleidiau.

3.2 Paragraff 3.4 Dywedodd y Trefnydd ei fod yn hapus i wneud copïau o bob llythyr a anfonwyd at Reolwyr Busnes ynghylch gorchmynion a wnaed o dan y weithdrefn Weithredol i'r Dirprwy Lywydd. Fodd bynnag, ailadroddodd y farn nad oedd gan y Pwyllgor Busnes rôl i graffu ar ddefnydd y Cabinet o'r weithdrefn Weithredol.

3.3 Dywedodd y Dirprwy Lywydd fod cylch gwaith y Pwyllgor o dan Reol Sefydlog 13.1 (iii) yn cynnwys gwneud argymhellion fel y bo'n briodol ar arferion cyffredinol a gweithdrefnau'r Cynulliad. Mae Adran 67(1) Deddf Llywodraeth Cymru yn darparu ar gyfer datgymhwyso'r gofynion trefniadol arferol sy'n ymwneud ag is-ddeddfwriaeth mewn amgylchiadau penodol pan nad yw'n rhesymol ymarferol. Mae'r ddarpariaeth hon yn cael ei haildrodd yn Rheol Sefydlog 22.27. Dywedodd y Dirprwy Lywydd y dylai'r Cabinet roi'r rhesymau i'r Pwyllgor dros ddefnyddio'r weithdrefn Weithredol ac i fod yn barod i gyfiawnhau'r amgylchiadau pan nad oedd yn rhesymol ymarferol i ddilyn y weithdrefn arferol. Dywedodd Jocelyn Davies ei bod yn credu bod hon yn ddadl argyhoeddiadol; fel arall ni fyddai unrhyw graffu o'r defnydd o'r weithdrefn Weithredol. Dywedodd y Trefnydd ei fod wedi pwysleisio i gyd-weithwyr mai dim ond pan oedd angen gwneud hynny y dylid defnyddio'r weithdrefn Weithredol ond ei fod yn agored i'r aelodau geisio diddymu offeryn a wnaed o dan y weithdrefn hon. Ymrwymodd i gael rhagor o wybodaeth ar y mater. **Gweithredu: y Trefnydd**

3.4 Dywedodd y Dirprwy Lywydd nad oedd eto wedi derbyn llythyr ynghylch y defnydd o'r weithdrefn Weithredol yn achos Rheoliadau Grant Menter Ffermydd a Grant Gwella Ffermydd (Cymru) 2001 a ddaeth i rym ar 30 Tachwedd 2001. Roedd y Cabinet wedi cytuno i ddefnyddio'r weithdrefn Weithredol mewn perthynas â'r rheoliadau hyn yn ôl ym mis Ebrill. Dywedodd Marion Stapleton y byddai'n edrych i mewn i'r mater. **Gweithredu: Marion Stapleton**

3.5 Paragraff 4.2 Dywedodd y Dirprwy Lywydd nad oedd y papurau blaen a oedd yn ymwneud ag is-ddeddfwriaeth ddrafft yn dal i adlewyrchu'r wybodaeth am ystyriaeth y pwyllgor pwnc yn llawn. Y wybodaeth a geisiwyd oedd unrhyw ymgynghori cychwynnol gyda'r pwyllgorau pwnc yn ogystal ag argymhelliad ynghylch a oedd yn ddymunol cael ystyriaeth gan bwyllgorau pwnc yn dilyn y Pwyllgor Busnes. Dywedodd Marion Stapleton fod rhai gorchmynion drafft yn cael eu hanfon at aelodau'r pwyllgorau pwnc yn ystod yr ymgynghoriad ond nid yw hyn yn cael ei wneud yn ffurfiol. Dywedodd mai'r Gweinidogion sydd bellach yn rhoi rhaglen o'r is-ddeddfwriaeth sydd ar y gweill i gadeiryddion y pwyllgorau. Dywedodd y Dirprwy Lywydd fod hyn yn ddefnyddiol ond awgrymodd y byddai Panel y Cadeiryddion o bosibl yn dymuno ystyried y mater ymhellach. Cytunodd y Pwyllgor y dylid cyfeirio'r mater i Banel y Cadeiryddion. **Gweithredu: yr Ysgrifenyddiaeth**

4. Is-ddeddfwriaeth

4.1 Rhoddodd y Pwyllgor Busnes ystyriaeth i bapurau BC2-02 i BC4-02 a oedd yn rhoi cyngor ar sut i drafod y tair eitem ganlynol o is-ddeddfwriaeth ddrafft.

- Rheoliadau Ychwanegion Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2002 (BC2-02)
- Rheoliadau Tatws sy'n Deillio o'r Aifft (Diwygio) (Cymru) 2002 (BC3-02)
- Gorchymyn y Bwrdd Marchnata Llaeth (Diddymu) 2002 (BC4-02)

4.2 Hysbysodd aelodau'r Pwyllgor Busnes y Dirprwy Lywydd eu bod yn hapus gyda'r cynigion i beidio ag anfon y gorchmynion drafft i'r pwyllgorau pwnc a chytunwyd y dylent ddilyn y weithdrefn gyflymach. **Yn dilyn hynny penderfynodd y Dirprwy Lywydd nad oedd angen cyfeirio'r Gorchmynion i'r pwyllgorau pwnc.**

4.3 Dywedodd Alun Jenkins ei fod am hysbysu'r Pwyllgor o gamgymeriad gweithdrefnol arwyddocaol a ddigwyddodd yn Uned Rheoli Deddfwriaeth Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol. Deilliodd y broblem o Reoliadau Deunyddiau Risg Penodedig (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2001 a wnaed o dan y weithdrefn Weithredol ar 31 Hydref 2001 ac a ddaeth i rym ar 1 Tachwedd 2001. Ni roddwyd gwybod i'r Uned Fusnes pan wnaed y rheoliadau ac roedd hyn yn golygu nad oedd yr Aelodau chwaith wedi'u hysbysu. Roedd y Pwyllgor Deddfau wedi rhybuddio'r Uned Ddeddfwriaeth am y broblem. Ymddiheurodd Alun Jenkins am yr amryfusedd a dywedodd fod gweithdrefnau newydd yn eu lle bellach i rwystro'r broblem rhag digwydd eto. Diolchodd y Pwyllgor iddo am roi gwybod am y camgymeriad.

5. Cyngor i'r Cynulliad ar weithdrefnau

Dim

6. Pwyllgorau

- Cais gan y Pwyllgor Diwylliant (BC7-02)

6.1 Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i gais y Pwyllgor Diwylliant i ddefnyddio ei slot ar gyfer gweithgareddau anffurfiol ar brynhawniau'r 17 Ionawr 2002 a 14 Chwefror 2002 ar gyfer sesiynau casglu tystiolaeth ffurfiol fel rhan o'i adolygiad o'r iaith Gymraeg. Cytunwyd i'r cais.

7. Busnes ar y gweill

Busnes yr Wythnos Hon (BC5-02)

7.1 Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i bapur BC5-02 a oedd yn cynnwys manylion am y busnes y cytunodd y Cynulliad arno am yr wythnos. Dywedodd y Trefnydd y byddai datganiad gan Edwina Hart ar y newidiadau

arfaethedig i'r gyllideb yn ogystal â thri datganiad a amserlennwyd ar gyfer y diwrnod hwnnw. Symudwyd Adroddiad Grant Arbennig Rhif 9 ar Blant sy'n Ceisio Lloches ar eu pennau eu hunain hefyd i 15 Ionawr.

7.2 Dywedodd y Dirprwy Lywydd y byddai busnes yr wythnos yn eithriadol o dynn a gofynnodd a oedd yn bosibl ailamserlennu un o'r datganiadau. Yn ystod y drafodaeth, mynegwyd pryderon ynghylch yr amser a neilltuwyd ar gyfer datganiadau a chytunodd y Trefnydd i edrych ar bosibilrwydd ailamserlennu datganiad ar y Mesur Addysg.

Datganiad Busnes Drafft (BC6-02)

7.3 Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r Datganiad Busnes Drafft (BC6-02).

7.4 Dywedodd y Trefnydd mai'r unig newid i'r Datganiad Busnes Drafft oedd ailamserlennu'r ddadl ar Adolygiad o Weithdrefn y Cynulliad a neilltuwyd i slot ar ddydd Iau 31 Ionawr. Byddai dadl Rheol Sefydlog 29 Pauline Jarman yn digwydd ar y dyddiad hwn yn lle hynny.

7.5 Cyngor y Pwyllgor i'r Trefnydd ar ei ddatganiad arfaethedig ynghylch trefn busnes y Cynulliad ar gyfer yr wythnosau'n dechrau ddydd Mawrth 15 Ionawr, dydd Mawrth 22 Ionawr a dydd Mawrth 29 Ionawr 2002 oedd y dylai fynd rhagddo fel yr amlinellwyd.

8. Materion a gyfeiriwyd o'r Cyfarfod Llawn

9. Diwygio'r Rheolau Sefydlog

10. Dyfarniadau'r Llywydd

11. Unrhyw fater arall

11.1 Dywedodd y Dirprwy Lywydd yr hoffai roi gwybod i'r Pwyllgor pam nad oedd wedi galw ar rai Aelodau i siarad mewn dadleuon yn ddiweddar. Mater o gwртеisi yw bod yn bresennol ar gyfer areithiau agoriadol os bydd Aelod yn dymuno cyfrannu i'r ddadl. Mae'r Protocol ar God Ymddygiad yn y Siambr yn egluro hyn. Dywedodd y byddai'n ysgrifennu at yr aelodau.

Gweithredu: Dirprwy Lywydd

YSGRIFENYDDIAETH Y SIAMBR